

❖ MAE'R NADOLIG WEDI DOD

Mathew 2:11

'Syrthiasant i lawr a'i addoli, ac wedi agor eu trysorau offrymasant iddo anrhegion, aur a thus a myrr.'

Mae'r Nadolig wedi dod. A bod yn onest, mae wedi bod yma ers diwedd Awst, gyda'r siopau yn swyno 'Spend, Spend' a 'Spend' eto. Adeg anrhegion yw hi; rhoi a derbyn, cyfnod y cardiau plastig. Amser y gwario gwarthus, dim ots am yfory, na'r flwyddyn nesa ychwaith. Beic i Bill, a doli i Dilys. Costied a gostio, cyfnod bishi braf, neu fondigrybwyll? Sa' i'n siŵr.

Chwarae teg i'r bechgyn o ben draw'r byd. Tri, neu bedwar medde rhai. Cyrraedd ar eu camelod, cydnabod Crist gyda'u presentau – aur, thus a myrr. Cymeriadau cynnes, caredig a chariadus o'dd y rhain. Pobl y 'Magi', dyna'r term technegol arnynt, yn ôl y diwinyddion disglair a deallus.

Diddorol tu hwnt yw'r presentau.

1. Mae'r aur yn dynodi *Ei Frenhiniaeth*

Dywed Seneca ei bod hi'n arferiad i gyfarch brenin ym Mharthia gydag anrheg foddhaol. Aur. 'Na chi bresant. Drudfawr, ond yn gwbl dderbyniol 'ych chi'n gweld o'r cychwyn cyntaf. Brenin o'dd e. Na, nid treisgar. Tawel, tyner a thrylwyr oedd hwn. Caru, cydymdeimlo, cofleidio – dyna oedd ei naws a'i nod. Oni ddylem fel unigolion gydnabod hynny mewn gwyleidd-dra?

2. Mae'r thus yn dynodi *Ei Offeiriadaeth*

Mewn oedfa yn y deml y defnyddid thus i berarogli'r awyr. Hyfryd o berarogl, melys a mwynaid. Darllenais yn rhywle mai swyddogaeth offeiriad oedd datguddio Duw i ddynion; tipyn o dasg. Dadansoddi perarogl Duw i ddyn, 'na chi job, enfawr ond eneiniedig hefyd. Diddorol yw'r gair gwreiddiol, Lladin am offeiriad – 'Pontifex'. Ie, ry'ch chi wedi ei deall hi. Pont. Pontio'r gagendor rhwng dyn a Duw, dyna wnaeth Iesu. Sicrhau bod dynion yn derbyn Duw.

3. Mae'r myrr yn dynodi *Ei Farwolaeth*

Defnyddid myrr i berarogli cyrff dynol. Marw nath e, yn y diwedd, ond codi cofiwch y bore rhyfeddol hwnnw.

Holman Hunt yr arlunydd adnabyddus sydd wedi portreadu Iesu fel crwtyn a chrefftwr tu fas i siop y saer yn Nasareth. Efallai fod gennyh gopi. Blinder, y 'bench', y mynawyd a'r morthwyl; ychydig o seibiant, 'break' nawr. Tu cefn iddo mae'r haul yn disgleirio, ac mae ei freichiau'n ymestyn tua'r cymylau cwmpasog. Mair, ei fam, yn y cefndir, yn edrych ar y breichiau yn estyn tua'r nef. Synfyfyrio'n sydyn; croes, casineb, camddealltwriaeth: dyna ddigwydd i hwn. Marwolaeth! Tipyn o bortread ohono.

Dynododd aur ei frenhiniaeth, thus ei offeiriadaeth a myrr y marw meistrolgar. Beth fydd eich hynt a'ch helynt chi y Nadolig yma? Fe gewch bresantau tlws, twt a thaclus. Cewch mae'n siŵr gennyf.

Ond y present pwysig. Ie, 'na chi, y babi bach 'na. Carwch e, cydiwch ynddo, cefnogwch e y Nadolig hwn. Fel y dywedodd y bardd Gwenallt yn ei gerdd 'Bethlehem':

Ond nac anghofiwn yr ystabl gynt,
Tom yr anifeiliaid ar y gwellt,
Y muriau moel yn loyw gan oerni
A Mair yn crynu gan oerfel wrth fagu ei baban;
A thrwy'r twll yn y wal ni ddôi o'r wybren rewlyd
Ond goleuni un seren i'r tywyllwch a'r tlodi.
Pererinion oeddem yno, pererinion pechadurus
Y pechod pwysig, y pechod pell,
Y pellter rhwng Duw yn ei ogoniant yn y nef
A'r plentyn yn y preseb.

J. Neville James